

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

Arfarniad Nodweddion a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Ardal Gadwraeth Sanclêr

Cynnwys

Crynodeb	1	Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Gâr:
1.0 Cyflwyniad	2	
2.0 Dealltwriaeth am y	5	BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk
3.0 Datblygiad	6	
4.0 Dadansoddi Gofodol	10	
5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad	21	
6.0 Dadansoddiad	32	
7.0 Arwyddocâd	33	
8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli	35	
Atodiadau	49	
Atodiad I: Llyfryddiaeth	50	
Atodiad II: Geirfa	51	
Atodiad III: Mapiau	53	
Atodiad IV: Adolygiad o'r	59	
Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau	60	

Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol ynddo, ac yn codi ohono, yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu dan eu trwydded. Ni chaniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn ar ei hyd, neu unrhyw ran ohono, nac unrhyw ddyluniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a geir ynddo, ar unrhyw ffurf heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient fel sy'n briodol. Ni chaniateir cyhoeddi nac atgynhyrchu'r holl ddeunyddiau y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedu i DIA neu'r cleient ac unrhyw hawliau o'r fath sydd gan drydydd parti, ar unrhyw ffurf. Dylid gwneud unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath i gyhoeddi neu atgynhyrchu yn uniongyrchol i'r sawl sy'n meddu ar yr hawliau eiddo deallusol ynddo.

Crynodeb

Dynodwyd Sanclêr yn Ardal Gadwraeth ym 1970. Erbyn hyn mae angen adolygiad o'r dynodiad hwn i ail-asesu arwyddocâd yr ardal ac ystyried a yw'r ffiniau yn parhau i fod yn briodol ai peidio. Nod yr adolygiad, a'r ddogfen ddilynol hon, yw darparu

gwerthfawrogiad cadarn a fydd yn sail i reolaeth, cadwraeth a gwella'r ardal yn y dyfodol.


Mae gan yr ardal hon o Sanclêr dreftadaeth gyfoethog yn sgil ei sefyllfa strategol yng nghydlifiad afonydd llanw sy'n ffinio'r safle. Yn hanesyddol, darparodd y lleoliad gyfleoedd amddiffynnol a manwerthu morwrol.

Gyda dulliau teithio a chyfathrebu yn newid, mae ffocws a chanol masnachol y dref wedi symud i'r gogledd, gan adael gwaddol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol, y mae ei gymeriad yn ddymunol ei warchod neu wella. Dyma brif nodweddion arwyddocaol yr ardal:

1. Lleoliad strategol yng nghydlifiad yr afonydd Taf a Chynin.
2. Man croesi isaf yr afon Taf a'r terfyn uchaf o ran llywio.
3. Y Castell Normanaidd a'r Eglwys Priordy Ganoloesol fel dau strwythur hynod arwyddocaol yn hanesyddol.
4. Strwythur stryd ganoloesol amlwg a strwythur cylch amddiffyn.

Cesglir y dylai statws ardal gadwraeth yr ardal barhau, ond dylid addasu'r ffin er mwyn sefydlu a chynnwys ardaloedd arwyddocaol sydd wedi'u hesgeuluso yn y gorffennol.

Y cam nesaf yw ceisio safbwyntiau pobl ynghylch y dadansoddiad hwn a'r cynigion i addasu ffin yr ardal gadwraeth.



Stryd y Bont tua'r gogledd i'r Stryd Fawr



Gosodiad lled-wledig y Santes Fair Magdalen

1.0 Cyflwyniad

1.1 Diben a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) i ymateb i friff gan Gyngor Sir Gâr (CSC) i baratoi Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Sanclêr, sy'n bosibl drwy gyllid grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Nod y prosiect hwn yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth gyfredol i ddeall a mynegi'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a datblygiad yr ardal yn y dyfodol. Bwriedir defnyddio'r ddogfen hon gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno gwneud gwaith ar eu heiddo, gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried newid i adeiladau sydd eisoes yn bodoli a chan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo nhw i wneud penderfyniadau.

Mae 4 rhan i'r adroddiad hwn:

1. Deall yr ardal: Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.
2. Gwerthusiad o'r safle: Mae hyn yn nodi prif elfennau'r Ardal Gadwraeth (AG) a sut maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei hymddangosiad, a'i harwyddocâd.
3. Materion, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gydag arsylwadau ynghylch materion a bygythiadau penodol ac yn nodi cyfres o egwyddorion i helpu i arwain datblygiad y dyfodol gan sicrhau bod diddordeb arbennig y safle yn cael ei gadw a'i wella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.

4. Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd sydd wedi'u hadnabod i fod yn sail i'r adran derfynol.

1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth Mae ardaloedd cadwraeth yn rhan unigryw o'r amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu dynodi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio tref, neu grŵp o adeiladau o arddull ranbarthol neu leol unigryw neu o ansawdd pensaernïol dda. Mae diddordeb hanesyddol yn ymwneud ag esblygiad hanesyddol lleoliad, cyfnod penodol neu ddigwyddiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol, megis tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archaeolegol, pensaernïol neu dopograffeg o'r gwreiddiau a'r prif gyfnodau datblygu sydd wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad drwy bethau fel arddull adeiladu, deunyddiau, strwythur strydoedd, defnydd tir a chyfnodau datblygu. O fewn y system gynllunio, caiff ceisiadau i newid AG eu hasesu i ddeall yr effaith y gall y datblygiad hwnnw ei chael ar arwyddocâd. Arwyddocâd yw un o egwyddorion arweiniol y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn diffinio arwyddocâd yn 'werth ased treftadaeth i hyn a chenedlaethau'r dyfodol oherwydd ei diddordeb

treftadaeth'. Gall hwn fod yn arwyddocâd archaeolegol, pensaernïol, artistig, neu hanesyddol a gall ddeillio o bresenoldeb ffisegol ac o'i osodiad hefyd.

Weithiau, rhoddir rheolyddion rheoliadol ychwanegol ar waith o fewn ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys dymchwel, gwaith i goed a hysbysebion. Mae gofyn i bob penderfyniad cynllunio gael ei asesu yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i gwella pryd bynnag mae hynny'n bosibl. Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rheini sy'n gwneud cais am newid neu'n gwneud penderfyniadau ddeall achosion y gall cynigion effeithio ar hyn a phennu a yw hwn yn newid cadarnhaol neu negyddol.

1.3 Summary of Related Legislation, Policy, and Guidance

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer dynodi a rheoli ardal gadwraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, a pholisi a chanllawiau cynllunio'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Polisi Cynllunio Cymru, Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae crynodeb a dolenni i'r dogfennau hyn i'w cael mewn atodiad i'r ddogfen hon.

1.4 1.4 Datganiad Dull

Ymgwymerwyd â'r canlynol drwy baratoi'r adroddiad hwn:

1. Adolygiad o wybodaeth gyfredol

Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau i ddeall diddordeb hanesyddol a phensaernïol yr ardal, gan gynnwys dogfennau wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau a deddfwriaethau wedi'u mabwysiadu a rhai newydd ac adnoddau ar-lein.

2. Casglu Gwybodaeth

Ymwelodd Insall â'r safle fis Chwefror a Mawrth 2022 i ymgymryd â dadansoddiad nodweddion a gofodol. Cafodd adeiladau a safleoedd eu gweld o fannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac ni chawsant eu hymchwilio'n fewnol.

3. Ymgysylltu â'r Gymuned

Nod allweddol y prosiect yw deall a mynegi'n glir yr hyn mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol a staff perthnasol yn y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon ac mae hyn wedi helpu i ffurfio ei chasgliadau. Dylid ystyried y ddogfen hon yn fan cychwyn ar gyfer trafod a bydd yn cael ei rhannu ymhellach gyda rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall safbwyntiau lleol o werth nodweddion trefluniau, eu problemau a'u cyfleoedd.

2.0 Dealltwriaeth am y

2.1 Crynodeb o Arwyddocâd a Chymeriad

Mae prif nodweddion yr ardal a'r eitemau o arwyddocâd wedi'u crynhoi isod (gweler rhestr hirach yn adran 7).

- Patrwm stryd, rhaniadau, a thir caeedig Canoloesol amlwg
- Lleoliad strategol gyda thystiolaeth o strwythur amddiffynnol hanesyddol
- Cysylltiadau morol ag afonydd mordwyol a phwynt croesi isaf afon Taf
- Hanes o fasnachu afonydd a thystiolaeth o ddiwydiant yn y gorffennol
- Henebion cofrestredig megis Castell Sanclêr ac adeiladau clwystrol Priordy Sanclêr
- Potensial archaeolegol uchel
- Golygfeydd arwyddocaol i'r ardal, ohoni a thrwy'r ardal, oherwydd y topograffi
- Adeiladau ag arwyddocâd lleol a rhanbarthol
- Ymdeimlad cryf o dir caeedig ar hyd y Stryd Fawr gul gyda golygfeydd ehangach a chipolygfeydd
- Yn dangos twf y dref gyda dulliau trafndiaeth yn newid yn ystod y 19eg i ddechrau'r 20fed Ganrif

2.2 Lleoliad

Mae AG Sanclêr i'r de o ganol y dref fasnachol bresennol ac mae'r ddwy ardal hyn wedi'u gwahanu gyda darn o dir yn cynnwys cefnffordd yr A40. Mae'r dref 8 milltir i'r gorllewin o dref sirol Caerfyrddin. Yn yr AG hon, ceir yr afonydd Cynin a Thaf a thir uwch i'r gogledd-orllewin. Ceir pont, yn darparu'r pwynt croesi isaf o'r afon Taf, ar ymyl ddeheuol y brif dramwyfa sy'n arwain o'r de i'r gogledd gydag adeiladau ar flaen dwy ochr y stryd.

Mae tomen y castell Normanaidd yn codi'n syth i ddwyrain y llwybr, wedi'i lleoli'n strategol yng nghydlifiad yr afonydd.

2.3 Topograffi a lleoliad

Tir isel a geir yn yr AG ar y cyfan, ac mae'r afonydd cyfagos yn parhau i fod yn fordwyadwy cyn belled â Sanclêr ar gyfer cychod bach. I'r de, mae golygfeydd pellgyrhaeddol i lawr yr afon Taf tuag at yr aber yn Nhalacharn. Mae mwnt y castell uchel yn caniatáu golygfeydd panoramig o ddyffrynnoedd afonydd llydan a'r tirlun o'u cwrmpas. O fan croesi'r afon, y tu hwnt i ymyl ddeheuol yr AG, mae Stryd y Bont yn codi'n araf i'r Stryd Fawr ar linell yn troelli'n araf o'r de i'r gogledd. Mae'r brif ffordd gul wedi'i chywasgu'n dynn gan adeiladau ar y ddwy ochr, ond i'r gogledd o'r castell, ceir cipolygfeydd o'r tir uwch i'r gorllewin drwy doriadau bob hyn a hyn, ac yn y dwyrain mae'r tir yn llechweddu i lawr i'r afon Cynin a'r golygfeydd o'r tirlun tu hwnt.



3.0 Datblygiad

Crynodeb o Ddatblygiad Hanesyddol Sanclêr

Yr Oesoedd Canol

Cafodd Sanclêr yr Oesoedd Canol ei leoli'n strategol yng nghydlifiad afonydd Taf a Chynin, mewn lleoliad isel ag amddiffynwyr naturiol da, a dim ond ochr y gogledd a'r gogledd-orllewin heb eu ffinio gan ddŵr. Sefydlwyd castell mwnt a beili gan yr Eingl-Normaniaid yn Sanclêr ar ddechrau'r deuddegfed ganrif yn ystod eu concwest o dde-orllewin Cymru. Yn sgil hyn, datblygodd anheddiad bach, wedi'u diogelu gan amddiffynfeydd wedi'u gwneud o bridd a phren. Lledaenodd yr anheddiad i ddwy ochr y ffordd gan arwain i'r gogledd tua'r priordy.

Gwelodd y castell frwydrau a chafodd ei gipio gan dywysogion Cymru ym 1153, 1189 a 1215. Ym 1188, llofruddiodd deuddeg saethwr o'r castell fonheddwr Cymraeg ifanc a gorchmynnwyd hwy i fynd ar grwsâd fel cosb. Mae'n debyg bod William Marshal yr Ieuengaf, a ymunodd â'r barwniaid yn erbyn y Brenin John ond a fyddai'n newid ochr yn ddiweddarach ac a ddaeth yn Iarll Penfro ac Arglwydd Marshal o Loegr ym 1219, wedi cyflwyno waliau amddiffynnol o garreg i ddisodli'r amddiffyniadau pridd a phren ym 1230. Bu farw William Marshal yr Ieuengaf ym 1231 gydag olyniaeth Marshal Ieirll Penfro yn dod i ben yn llwyr ym 1245. Ar ôl hyn cafodd yr etifeddiaeth ei rhannu i wahanol berthnasau. Dirywiodd y castell o ganol i ddiwedd y 13eg Ganrif. Ildiwyd y castell i Owain Glyndŵr ym 1405 ond cefnwyd ar y lle yn fuan wedyn.

Sefydlwyd Eglwys Priordy y Santes Fair Magdalen yn Sanclêr rhwng 1147 a 1184 fel cell estron Sant Martin des Champs, Paris, gan roddwyd yr eglwys a oedd

eisoes yn bodoli i'r gymuned fynachaidd. Rhannwyd y defnydd o'r eglwys gan y mynachod a'r gymuned seciwlar. Ni chaiff y priordy ei grybwyll yng ngwasanaeth derbyn y Pab Lucius II i fynachod Sant Martin ym 1147 ond caiff ei gynnwys yng ngwasanaeth derbyn Eugenius IV ym 1184. Parhaodd yn gell ar gyfer y priordy ac un neu ddau o gymdeithion y mynachod. Ym 1291, cofnodwyd mai dim ond deuddeg acer o dir â'r oedd gan y safle. Diddymwyd y priordy ei hun ym 1414.

Mae gan Sanclêr hanes morol hir ers o leiaf y 12fed Ganrif. Yn sgil yr afon Taf, sy'n afon fordwyol, tua'r de, hwyluswyd porthladd masnachu llewyrchus gyda mynediad rwydd at Sianel Bryste.

Rhoddwyd siarter dref ym 1393.

Mae'r bont i'r de o'r ardal gadwraeth a Stryd y Bont yn dilyn strwythur Canoloesol gwreiddiol y dref ac mae plotiau Sanclêr ar hyd Stryd y Bont yn dal i fod yn gaeedig i raddau helaeth hyd heddiw o fewn llinell y cylch amddiffyn blaenorol.

17eg – 18fed Ganrif

Cafodd llongau a masnachwyr Sanclêr eu crybwyll yn nogfennau Canoloesol ac o'r 16eg a'r 17eg Ganrif, ehangodd Sanclêr ei fasnach arfordirol a thramor. Erbyn y 18fed Ganrif, ymhlith y pethau a gafodd eu mewnforio oedd cerrig, glo a phren (o borthladdoedd y Baltig). Byddai nifer o nwyddau domestig megis llieiniau a dillad, llestri a sosbenni, sebon, canhwylau, gwydrau, cylllyll, nwyddau haearn a dillad yn cyrraedd ar longau, yn bennaf o Fryste. Yn gyfnewid, ymhlith allforion Sanclêr



Cynllun tybiedig o'r dref yn y 14eg Ganrif

oedd nwyddau amaethyddol - y'd, menyng a chaws.
Ymhlith yr allforion yn y deunawfed ganrif, oedd mwyn
plwm o byllau Llanfyrnach.


Erbyn 1763, yn sgil sefydlu'r cwmni tyrpeg i ddiweddarau'r
ffordd o Gaerfyrddin at Sanclêr ac at Dafarn Ysbyty,
symudwyd ffocws y dref filltir tua'r gogledd o'i chraidd
Canoloesol o gwmpas y castell a'r eglwys.

19eg Ganrif

Yn y 19eg Ganrif, daeth cychod o hyd at 250 tonnelli i
fyny'r afon ar lanwau gwanwyn, a byddai cychod yn cludo
teithwyr i Fryste unwaith pob pythefnos. Ymestynnodd
chwerfau a cheiau tua'r gogledd ar gloddiau'r Cynin.
Mae mapiau o'r 19eg Ganrif yn dangos nifer o waith
brics a theils, odynau calch, iardiau glo a melinau llifio.
Hyd at ddiwedd y 19eg Ganrif, roedd bywyd masnachol
Sanclêr yn dibynnu'n fawr ar gysylltiadau â'r môr. Yn sgil
gwelliannau i'r ffyrdd ac adeiladu Rheilffordd De Cymru
ym 1853, cafwyd dirywiad graddol yn y porthladd a
symudodd y ffocws masnachol i Sanclêr 'uchaf'.

Nodir ar fap Arolwg Ordnans 1889 ymestyniad parhaus
Sanclêr yn y 19eg Ganrif, mewn cymhariaeth â map
Degwm 1842. Cafodd y rhan fwyaf o'r adeiladau a welir
heddiw ar hyd Stryd y Bont a'r Stryd Fawr eu hadeiladu
yn y 19eg Ganrif, yn dilyn y patrwm stryd Canoloesol.

Ym 1848, ffurfiwyd Neuadd y Dref ar y Stryd Fawr drwy
drosi'r stordy Cross gan fab William Rogers o Sanclêr.
Cafodd eglwys y Santes Fair Magdalen ei hadnewyddu
ym 1853-5 ac ym 1883-4, ac ychwanegwyd ffenestr
wydr liwgar ym 1929. Heddiw, mae ei ffurf Ganoloesol
wedi'i chadw. Ystyri'r mai yma lle mae'r enghraifft orau



Trosllun o Ffin Hanesyddol Sanclêr 1907 (Wedi'i
atgynhyrchu gyda chaniatâd National
Library of Scotland)

sydd wedi goroesi o garreg wedi'i cherfio yn y dull Normanaidd yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd sawl capel eu hadeiladu o fewn yr ardal sydd bellach yn AG yn ystod y 19eg Ganrif: Troslun o Ffin Mae Capel Mair, Capel Annibynwyr Cymraeg, a gafodd ei adeiladu'n wreiddiol ym 1820, ond a ailadeiladwyd ym 1827 ac 1862 yn parhau i fod yno; gerllaw mae Capel-y-Craig, Undodwyr, a gafodd ei adeiladu ym 1826 ond a gaeodd ym 1901, mae dau dŷ wedi'u hadeiladu ar y safle hwnnw;

ac mae Capel Penuel, Methodistiaid Cymreig, yn dyddio'n ôl i oddeutu 1885, ar ffin ogleddol yr AG wedi'i drosi'n dŷ erbyn hyn hefyd.


Mae gan Sanclêr gysylltiad â Helyntion Beca, gwrthryfel rhwng 1839 a 1843 yng ngorllewin a chanolbarth Cymru gan ffermwyr tenant, yn protestio yn erbyn talu tollau i ddefnyddio'r ffyrdd. Mae cerflun yn Sanclêr uchaf yn efelychu chwalu'r tollborth yn ei leoliad gwreiddiol.

20fed Ganrif

Parhaodd beth masnach forol hyd ddiwedd yr 1920au. Gallai cychod bach gyrraedd cyn belled â Sanclêr 'uchaf' ar hyd yr afon. Mae'r cei o garreg ar y Taf yn dal i fod yn weladwy, er cafodd y wrysau cysylltiedig eu dymchwel yn y 1970au ac ailddatblygwyd y safle ar gyfer tai.

Yng nghanol yr 20fed Ganrif, cafodd ardal feili'r castell ei lefelu, gan adael y mwnt a'r argloddiau. Nid oes gwaith cerrig amlwg yn parhau o'r castell er bod gwaith maen wedi'i ddarganfod o dan y ddaear.


Mae nifer o dai tafarn, ysgolion a mentrau masnachol yn parhau ar fapiau o Sanclêr 'isaf' yr 20fed Ganrif, o fewn yr AG bresennol.



St Clears Historic Boundary Overlay 1907
(Reproduced with the permission of the National Library of Scotland)

Sanclêr Erbyn Heddiw

Mae gwreiddiau a strwythur yr anheddiad hanesyddol yn parhau i fod yn amlwg, gyda mwnt y castell a'r eglwys yn cynnal eu perthynas â thopograffi gwaelodol yr AG. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau eraill yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif er bod nifer ohonynt wedi'u haddasu i raddau helaeth, ond gwelir peth sefydliadau yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr 20fed Ganrif, gyda busnesau ac eiddo preswyl wedi'u hychwanegu ar hyd y prif dramwyfa. Ar ymyl ddwyreiniol yr AG, yn ffinio'r afon, mae'r tai ar Lôn-y-Prior a Manor Daf Gardens wedi gwanhau lleoliad a chydlynad yr AG eto. Erbyn hyn, mae'r gweithgarwch masnachol yn digwydd ymhellach tua'r gogledd yn Sanclêr 'uchaf' yn bennaf, yn agosach at rwydwaith y briffordd a'r rheilffordd. Mae clwb cychod ar lan yr afon ond prin yw'r dystiolaeth o fasnachu morol y gorffennol, ac eithrio olion glanfa o garreg ochr yn ochr â'r Taf, i ddwyrain y bont. Mae rhai cyfleusterau yn parhau i gefnogi'r gymuned breswyl o fewn yr AG. Mae'r traffig drwodd ar y Stryd Fawr a Stryd y Bont, sy'n darparu'r prif lwybr i Dalacharn ac oddi yno i'r de, yn falltodd anffodus a hynod uniongyrchol ar ffyrdd preswyl cul yr AG.



Troslun o Ffin Hanesyddol Sanclêr 1964 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

4.0 Dadansoddi Gofodol

4.1 Golygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyriaeth o olygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni. Nodir y canlynol heb eithrio mannau gwyllo eraill a gellir eu gweld ar y map canlynol.

Tirlun a mannau agored cyfagos

Wrth gyrraedd Sanclêr o'r de, dyma lle mae lleoliad strategol mwnt y Castell ar ei fwyaf amlwg, er gwaethaf y tai yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr 20fed Ganrif ar hyd glannau'r afon. Mae dyffrynnoedd isel, llydan yr afonydd yn caniatáu golygfa o'r topograffi cyfagos a natur linellol y dref, gyda chribau yn codi'n raddol i fyny'r brif dramwyfa o groesfan y bont.

Yn yr ardal gadwraeth, nid yw'n syndod y ceir golygfeydd panoramig ar draws yr AG, y dref a'r tirlun cyfagos ar dop mwnt y castell. Gan edrych tua'r de o'r mwnt, mae'r beili gwastad yn ymestyn tuag at gydliwiad yr afonydd gyda llystyfiant ar hyd y terfyn yn cuddio'r tai oddi tanodd a dyffryn Taf yn parhau yn y cefndir tuag at Fae Caerfyrddin.



Wrth gyrraedd o'r de



Stryd y Bont tua'r gogledd i'r Stryd Fawr



Golygfeydd panoramig i'r de o Fwnt y Castell

Golygfeydd stryd

Fel arall, mae Castell Sanclêr wedi'i guddio'n dda oddi mewn yr AG, ac yn weledol dim ond drwy fwlch anhrawiadol rhwng eiddo cyffredin ar hyd ochr ddwyreiniol Stryd y Bont. Mae mwnt y castell yn codi'n syth bron iawn y tu ôl i giatiau mynediad y parc, ond yn llefydd eraill mae wedi'i guddio gan y llinell o eiddo teras ar y stryd gul sy'n isel ond yn ddi-dor i raddau helaeth.

Mae ffurf gromlinog Stryd y Bont a'r Stryd Fawr, a'r eiddo teras yn bennaf ar ymyl y stryd, yn creu stryd gul ac agos ag ymdeimlad cryf o le caeedig; mae'r olygfa a'r cyfeiriadedd yn newid ychydig ond prin yw'r teimlad eich bod wedi cyrraedd ar unrhyw adeg ar hyd y llwybr. Ffasâd onglog, uchel Capel Mair yw'r ymyriad mwyaf dramatig. Ceir cipolygfeydd ar osgo bob hyn a hyn drwy fylchau yn y llinell adeiladau. Drwy'r ffyrdd a'r pyrth i'r gorllewin, ceir golygfeydd byr i dir uwch y cefn gwlad a'r tir fferm cyfagos. I'r gorllewin, mae'r tir yn llechweddu i lawr i'r afon Cynin gan gynnig golygfeydd hirach o'r cefn gwlad cyfagos ar draws y dyffryn. Gan gyrraedd y Santes Fair Magdalen drwy borth y fynwent ar y Stryd Fawr, mae'r fynwent fawr ynghyd â'r tirlun yn y cefndir o'r cefn gwlad cyfagos i'r dwyrain, yn rhoi lleoliad bron iawn yn wledig i'r eglwys.



Stryd y Bont tua'r gogledd i'r Stryd Fawr



Cipolwg tua'r gorllewin o'r Stryd Fawr



Gosodiad lled-wledig y Santes Fair Magdalen



Yr afon Cynin tua'r de

Nodir isod golygfeydd strydoedd dan sylw, heb eithrio eraill:

Mwnt y Castell o Stryd y Bont

Brig y Stryd Fawr i'r de tuag at Gapel Mair Stryd Fawr ger Neuadd y Dref a phorth y fynwent

Golygfeydd wedi'u rhwystro a chaeedig

Er bod cryn dipyn o'r golygfeydd o fewn yr AG wedi'u dominyddu gan rai prif dramwyfeydd, mae'r cipolygfeydd i lawr strydoedd bach a rhwng adeiladau hefyd yn rhan annatod a phwysig o gymeriad yr ardal ac mae sawl llwybr o'r fath sy'n arwain oddi ar y Stryd Fawr a Stryd y Bont. Mae'r rhan yn cynnig golygfa ddiddorol, os nad yn olygfeydd apelgar i'r llygaid, o'r gweddau mwy anffurfiol ac olion y tiroedd bwrtais a oedd yn nodweddiadol o'r ardal ar un adeg.



Mwnt y Castell o Stryd y Bont



Stryd Fawr ger Neuadd y Dref a phorth y fynwent



Stryd Fawr i'r de tua Chapel Mair

4.2 Prif Dirnodau ac adeiladau

allweddol Adeiladau a Strwythurau Rhestredig

Y Santes Fair Magdalen

Wedi'i lleoli mewn mynwent y tu ôl i'r stryd a'i chyrraedd drwy borth mynwent gyferbyn â Neuadd y Dref, mae'r eglwys yn dyddio'n ôl i'r 12fed Ganrif, ond cafodd ei haddasu yn y 14eg a'r 15fed Ganrif. Y bwa cangell gwreiddiol yw'r gwaith Normanaidd gorau yn y sir. Mae'r waliau allanol wedi'u gwneud o garreg rwbel gydag addurniadau o graig Caerfaddon, gyda theils concriid i'r corff a llechi i'r gangell. Mae gan y tŵr sy'n dyddio'n ôl i'r 15fed Ganrif blinth wedi'i guro a chonglfeini enfawr, a chanllaw gwalciog corbelog. Mae'r tu allan, sy'n syml ond mawreddog, wedi'i guddio i raddau helaeth rhag y Stryd Fawr gul. Wedi'i adfer mewn sawl cam yn ystod y 19eg Ganrif, mae'r eglwys Ganoloesol wedi'i hadfer yn un rhestredig gradd II*. Yn uniongyrchol i'r de o'r eglwys, ceir olion Canoloesol o adeiladau Clwystrol Priordy Clywinaidd yn Sanclêr, a gafodd ei sefydlu rhwng 1147-84. Mae'n dangos platfform hirsgwar mewn padog bach ac yn un o ddwy gell Glywinaidd wedi'u sefydlu yng Nghymru. Cafodd yr eglwys ei rhannu gan y plwyf a'r Priordy hyd nes ei diddymu ym 1414.



Castell Sanclêr

A hithau'n adnabyddus hefyd fel Banc y Beili, mae'r heneb restredig hon yn cynnwys olion castell mwnt a beili a adeiladwyd ddiwedd yr 11eg Ganrif i amddiffyn y lleoliad strategol yng nghydlifiad yr afonydd Taf a Chynin. Mae'r mwnt pridd sy'n mesur 8m o uchder, yn sylweddol ac wedi cadw'n dda. Credir bod y platfform gwastad ar frig y mwnt wedi'i gefnogi gan strwythur o waith maen. Mae'r beili mawr yn hirsgwar fwy neu lai ac yn ymestyn i dde'r mwnt, ond cafodd yr ardal ei lefelu yn yr 20fed Ganrif, gan guddio'r ffos o gwmpas y mwnt, a'r clawdd a'r ffos o gwmpas y beili. Mae'r heneb yn atgyfnerthu gwybodaeth ynghylch amddiffynfeydd Canoloesol ac yn ffurfio elfen bwysig yng nghyd-destun Canoloesol ehangach yr AG. Mae'n bosibl y disgwylir i'r strwythur ei hun gynnwys gwybodaeth archaeolegol yn ymwneud â chronoleg, technegau adeiladu a manylion ymarferol.



Green Park House

Oddeutu hanner ffordd rhwng y Castell a'r eglwys, ar ochr orllewinol y Stryd Fawr, mae Green Park House sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif, wedi'i leoli y tu ôl i gwrth blaen bach â rheiliau. Mae'r tŷ tref Sioraidd hwn sydd â manylion gwreiddiol a phorth pren unigryw bellach yn edrych allan ar draws y Stryd Fawr hyd at Lôn-y-Prior, sydd wedi'i alinio ar echel gyda'r tu blaen. Yn ôl mapiau, byddai'r wedd wreiddiol yn wynebu man gwyrdd agored.



Porth y fynwent

Wedi'i leoli wrth fynedfa'r fynwent oddi ar y Stryd Fawr, mae'r dyluniad hwn o borth pren y fynwent yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 20fed Ganrif ac yn arwydd o bresenoldeb yr eglwys. Mae ganddo werth mewn grŵp ar y stryd adeiledig agos. Mae'r wal o garreg rwbel i'r chwith o borth y fynwent yn ymgorffori rhan o groes hŷn o garreg.



Neuadd y Dref

Mae Neuadd y Dref, a gafodd ei greu ym 1848 drwy roi bywyd newydd i storfa forol yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif, yn wynebu porth y fynwent ar draws y Stryd Fawr. Mae'r uchder lloriau uwch a'r ffasâd tri bae, lletach yn rhoi peth graddfa a ffurfioldeb sy'n gweddu i'r trawsnewidiad. Cyrhaeddir y llawr uchaf drwy risiau carreg ar ochr ddeheuol yr adeilad, yn arwain at borth groes. Mae cribau o frics i'r agoriadau o fewn y wedd carreg rwbel. Mae plac ar y llawr uchaf yn dangos baedd gwyllt y Mabinogi, ac o'i gwmpas ceir arysgrif wedi'i beintio yn nodi "Corporation of St. Clears. Prif Cufeillach Trwy'r Byd" wedi'i goroni â chrib yn nodi'r arysgrif "1848. Neuadd y Dref". Mae'r adeilad wedi cael sawl defnydd; bu'n ddosbarth babanod ar y llawr 1af o'r 1960'au ac yna'n weithdy i saer ar ddechrau'r 20fed Ganrif. Yn anffodus, ymddengys nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio bellach a'i fod yn dirywio.



Cross House Stores

Ar ochr ddwyreiniol y Stryd Fawr, yn syth i'r gogledd o borth y fynwent, mae Cross House Stores, sef siop draddodiadol sydd wedi goroesi gyda blaen siop o bren yn ymestyn tuag allan, pilastrau yn codi ar y pen a bracedi yn dal ffasgia yn ymestyn tuag allan.

Mae gan dalcen gogleddol yr adeilad astell dywydd addurniadol, drawiadol. Mae'r adeilad yn dyddio'n ôl i ganol y 19eg Ganrif, blaen y siop ychydig yn hwyrach, ond mae wedi'i addasu sawl gwaith ers hynny, megis y drws garej modern yn y bae deheuol. Yn wag ar hyn o bryd.



Cross House

Mae'r Cross House, sy'n gyfagos i'r Stores, yn aneddfa fach blaen dwbl, wedi'i rendro, gyda dwy linell baralel, yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif. Yn y fynedfa, ceir drws â chwe phanel iddo mewn ffrâm drws bren wedi'i pheintio a bracedi consol o dan bediment agored. Mae gan yr hanner llawr uchaf sasiau yn torri'r bondo dan dalcennig pren gydag estyll tywydd. Yn wag ar hyn o bryd.



The Butcher's Arms

Gan barhau tua'r gogledd ar ochr ddwyreiniol y Stryd Fawr, mae'r Butcher's Arms yn dŷ mewn rhes o dai teras yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif, a oedd yn dafarn ers o leiaf 1868. Mae plinth uwch wedi'i beintio i'r teras sydd â dau lawr isel traddodiadol o blastr garw wedi'i beintio, silff ffenestr stwco ar y llawr cyntaf a ffrâm ddrws, gyda tho llechi. Mae'r eiddo wedi'i drosi'n ôl i ddefnydd preswyl er bod draig Bragdy Felinfoel yn parhau'n weladwy ar flaen y llawr cyntaf sydd wedi'i addasu'n fawr yr eiddo cyfagos i'r gogledd.



Kieffe House

Ar dir uwch a chyferbyn y Butcher's Arms gynt, mae Kieffe House yn dŷ arall yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif wedi'i adeiladu fel pâr gyda The Kieffe sy'n gyfagos i'r gogledd, ond sydd wedi'i addasu. Mae'r tai trefi pâr wedi'u gosod yn ôl oddi wrth y stryd y tu ôl i gwrth blaen uwch â glaswellt. Wedi'i orffennu mewn plastr garw wedi'i beintio gydag amgylchynau stwco plaen i agoriadau'r llawr gwaelod a tho llechi, mae Kieffe House yn cadw peth o'r cymeriad traddodiadol a manylion sydd bellach ar goll yn yr eiddo cyfagos.



Newton Villa

Yn syth i'r gogledd o The Kieffe, mae Newton Villa, tŷ teras traddodiadol sydd wedi cadw'n dda ac yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif, â nodweddion rhanbarthol iddo. Mae'r tŷ diwedd teras wedi'i blastro â phlastr garw gydag addurniadau stwco a tho llechi ac mae'n sefyll oddi wrth y palmant yn rhan ddiffiniedig o'r Stryd Fawr o fewn yr AG.



Capel Mair

I'r de o'r gyffordd gyda Heol Goi, mae gan y capel yr Annibynwyr hwn bresenoldeb drawiadol ymhlith y tai teras llai sy'n amlwg yn yr AG ar hyd y Stryd Fawr. Ailadeiladwyd y capel ym 1862 i ddyluniadau gan y Parch Thomas Thomas Glyndŵr, Abertawe, a'i sefydlu fel cangen Bethlehem, Pwll-trap, a daeth yn annibynnol ym 1891. Mae ffasâd talcen yr adeilad yn dri bae, yn gysylltiedig â philastrau enfawr gyda chapan colofn plaen yn cario goruwchadail bob ochr i fwa canolog garw gyda phlac islaw. Mae gan y talcenni ochr ffenestri bwaog, cul, uchel, yn debyg i'r rheini ar y ffasâd, ond cilannnog a heb fframiau wedi'u mowldio. Mae Capel Mair wedi'i osod yn ôl oddi wrth y llinell adeiladau gyffredinol, gyda blaen cwrt o laswellt. Mae'n cynrychioli enghraifft gyflawn o waith un o benseiri capeli blaenllaw Cymru.



Gothic Villa

Tuag at ochr ogleddol yr AG, mae Gothic Villa yn eiddo sy'n dyddio'n ôl i ganol y 19eg Ganrif mewn arddull Gothig y mae traddodiad cryf ohoni yn ne-orllewin Cymru. Mae'r tŷ pêr dau lawr o blastr garw wedi'i beintio gyda stripiau pilastr ar y gornel, plinth a band silff ffenestr ar y llawr cyntaf. Mae bariau gwydro yn croestorri ar y ddau lawr i'r sashis ffenestri Gothig cilannog â phigfain ac mae gan y porth bren â thalcen ochrau tyllog yn ôl arddull ffretwaith Gothig. Mae manylion yn ôl themâu cyffelyb yn cyfrannu at hynodrwydd yr adeilad hwn yn yr AG.



Pympiau Dŵr

Mae tri phwmp dŵr o haearn bwrw yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif sy'n dal i fod yn eu lle ar gyfnodau rheolaidd ar hyd y brif dramwyfa. Mae ganddynt batrwm tebyg ac o ddiddordeb gan eu bod yn ddarnau o ddodrefn stryd o haearn bwrw sydd wedi cadw'n dda yn y cyd-destun hwn sy'n drefol i bob pwrpas.



Blwch Ffôn

Mae ciosg ffôn patrwm K6 yn nyluniad safonol Syr Giles Gilbert Scott yng nghyffordd y Stryd Fawr a Lôn-y-Prior, ac mae'n ddarn o ddodrefn stryd rhestredig gradd II yn cyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.



Adeiladau a Strwythurau Anrhestredig Pwysig

Nid yw'r adeiladau canlynol yn rhai wedi'u rhestru'n statudol, ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, neu'n rhan o dreftadaeth Sanclêr, oherwydd arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol, neu archaeolegol, a chânt eu cydnabod fel asedau treftadaeth sy'n cyfrannu at yr AG. Fel y cyfryw, rydym yn cynnig eu cynnwys ar restr o adeiladau lleol teilwng; ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad ac ni fyddai angen caniatâd adeilad rhestredig i adeilad sydd wedi'i restru'n lleol, ond byddai diddordeb arbennig yr adeilad yn ystyriaeth sylweddol yn y broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Property to rear of Santa Clara Inn

Y tu ôl i Santa Clara Inn, ac ynghlwm â'r adeilad hwnnw, ceir warws tri llawr a chwe bae, i'r de o'r ffordd gul yn arwain i lawr at yr afon Cynin. Mae gan y waliau o gerrig rwbel agoriadau rheolaidd gyda chribau o frics a tho llechi ac mae'r eiddo wedi'i drosi'n dai gyda mynediad gwastad at y llawr cyntaf o'r de. Ymddengys bod yr adeilad yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 19eg Ganrif ac yn ôl pob tebyg roedd yn ymwneud â gweithgarwch masnachol neu ddiwydiannol y gorffennol yn gysylltiedig â masnach afon ar hyd y Cynin, fel y tystir gan y craen sydd ynghlwm â'r talcen dwyreiniol.

Prin iawn yw'r dystiolaeth o'r cyfnod hwn o esblygiad Sanclêr sydd wedi goroesi ac mae'r adeilad yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar orffennol morol yr ardal.



Peniel Villa

Ar derfyn gogleddol yr AG, mae Peniel Villa yn dal i ddangos arwyddion o'i wreiddiau fel capel. Mae'r rhan fwyaf o fanylion allanol yr adeilad wedi'u colli wrth ei drosi'n aneddfa, ond mae ei leoliad a'i gyfeiriadedd mewn perthynas â'r Stryd Fawr yn arwydd o'i dreftadaeth. Adeiladwyd Peniel, Capel y Methodistiaid, ym 1810 ac fe'i trosglwyddwyd i'r cylch Saesneg neu ei werthu i enwad arall ym 1885. Mae'r wal ffin wreiddiol, y pilenni a'r giât yn parhau, er bod y rheiliau cysylltiedig wedi'u gwaredu a'r wal wedi'i haddasu. Mae ffurf sylfaenol ymddangosiad y Capel yn amlwg.



4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae man gwyrdd helaeth yn yr AG, oherwydd y tu ôl i'r datblygiad strided sydd i'r Stryd Fawr, mae'r ffiniau yn torri'n erddi preifat, tir fferm neu dir agored. Gellir cael cipolwg o'r ardaloedd cyfagos a phell drwy byrth, bylchau a llwybrau ochr yn arwain o'r Stryd Fawr. Mae'r prif nodweddion a'r mannau yn cynnwys;

- Mynwent y Santes Fair Magdalen a safle adeiladau Clwystrol y cyn-Briordy
- Castell Sanclêr, parc cyhoeddus a pharc chwarae i blant
- Tir coediog a'r dramwyfa i 'Rivendell' (cyn-Ficerdy i'r Santes Fair)


Dangosir mannau gwyrdd ar y map canlynol.



Mynwent y Santes Fair Magdalen a safle adeiladau Clwystrol i'r cyn-Briordy



Castell Sanclêr, parc cyhoeddus a pharc chwarae i blant



Tir coediog a'r dramwyfa i 'Rivendell'



Y ffordd i'r gorllewin i'r Stryd Fawr y tu ôl i Santa Clara Inn



Tir agored y tu ôl i'r datblygiad sribed



Y ffordd i'r dwyrain i'r Stryd Fawr y tu ôl i Cross House

5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal fel yr oedd ar adeg yr astudiaeth.

5.1 Nodweddion y Dref

Mae'r AG wedi'i dosbarthu ar hyd y brif dramwyfa sy'n troi ychydig ac yn codi'n raddol o bont yr afon Taf, gydag adeiladau wedi'u lleoli ar ymyl y stryd, neu oddi wrth ymyl y stryd, a ffyrdd cul bob hyn a hyn yn arwain i'r gorllewin a'r dwyrain. Mae'r cymeriad yn llinellol gyda golygfeydd wedi'u hatal a'u cyfyngu gan flaen y stryd sy'n rhoi ymdeimlad o dir caeedig.

Mae cymeriad yr AG yn newid ychydig wrth symud tua'r gogledd. Yn dominyddu ardal ddeheuol yr AG mae topograffi gwaelodol y castell a gwasgnod ei gylch amddiffyn a'r tir bwrtais. Heibio tŷ tafarn y Santa Clara, mae'r stryd yn agor rhywfaint gydag ardal fwy gwyrdd o gwmpas y capel Canoloesol a'r priordy blaenorol, yn amlapio o gwmpas ochrau gogleddol a gorllewinol yr anheddiad Canoloesol. Ymhellach tua'r gogledd, mae parhad y Stryd Fawr adeiledig yn dringo'n raddol tuag at Sanclêr uchaf. Traffig sy'n dominyddu'r brif dramwyfa drwy'r AG ac mae parcio ar y stryd yn effeithio ar symudiad cerddwyr a cherbydau ar hyd y brif dramwyfa gul. Prin yw'r ddarpariaeth neu'r cyfle i barcio oddi ar y stryd gan fod y ffyrdd bach yn ffyrdd un trac gan amlaf. Gwaethygir yr effaith gan raddfa gyffredin ac agosatrwydd yr eiddo ar hyd y Stryd Fawr a Stryd y Bont.

Mae cysondeb i ran helaeth o'r adeiladau sy'n bennaf yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif, maent ar raddfa gyffredin ac yn cynnwys manylion syml, ond mae'r strwythur a'r dwyster amrywiol yn addasu

profiadau o'r ardaloedd hyn a'r modd y cânt eu gweld. Mae 'gwelliannau' ar ddiwedd yr 20fed Ganrif wedi erydu ansawdd a chymeriad nifer o eiddo.

Syndod yw nad yw'r bont dros yr afon Taf sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif, a chloddiau isel y Taf a'r Cynin sy'n cylchu'r castell yn rhan o'r AG.



Eiddo ar raddfa gyffredin yn ffurfio blaen y stryd



Stryd y Bont yn troi ychydig



Ardal fwy agored y Stryd Fawr i'r de o'r Eglwys a'r cyn-Briordy.

Gan symud tua'r gogledd ar hyd Stryd y Bont, mae bwlch gweddol lydan ar yr ochr ddwyreiniol, rhwng adeiladau anhynod, yn rhoi mynediad drwy giât i feili gwastad castell Sanclêr a chipolwg ar fwnt y castell, sydd fel arall wedi'i guddio'n dda oddi fewn yr AG. O Stryd y Bont, mae ffyrdd cul yn mynd y tu ôl i eiddo preswyl yn dilyn yr hyn sy'n debygol o fod yn hen linell y tir caeedig amddiffynnol Canoloesol.

Ymhellach i fyny Stryd y Bont, mae Green Park House, sy'n fwy ac yn amlwg gyferbyn y gyffordd â Lôn-y-Prior, ffordd bengaead fodern sy'n meddiannu rhan o'r ardal gadwraeth.

Y tu hwnt i dŷ tafarn y Santa Clara, mae'r dramwyfa goediog aeddfed oddi tan Rivendell yn arwain at ochr orllewinol y Stryd Fawr ac yn rhoi seibiant rhag yr ardal drefol. I'r dwyrain, mae bylchau yn caniatáu sawl cipolwg tuag at y fynwent fawr sy'n llechweddu tuag at yr afon Cynin. Mae'r tir yn fwy agored ac yn gorwedd y tu hwnt i linell amddiffynnol yr anheddiad Canoloesol.

O gwmpas porth y fynwent a Neuadd y Dref, mae'r adeiladau wedi'u gosod yn ôl ychydig o ymyl y Stryd Fawr, gan greu ardal sy'n llai llinelllog. Yn anffodus, nid yw'r siop a Neuadd y Dref yn cael eu defnyddio, felly'r eglwys yw unig ffocws unrhyw weithgarwch yn y lleoliad hwn sydd â'r potensial i fod yn lleoliad cymdeithasol. Ceir toriad cyffelyb yn y patrwm stryd o gwmpas Capel Mair, sy'n adeilad amlwg, ac adeilad yr hen ysgol ar y gornel gyferbyn â Heol Goi, ond eto nid yw'n cael ei defnyddio gan ymddengys bod y Capel wedi cau ac mae'r ysgol wedi'i throsi ar gyfer defnydd preswyl erbyn hyn. Mae'r symudiad drwy'r AG bron a bod yn gwbl gerbydaidd.

Ar frig y Stryd Fawr, mae eiddo mwy wedi'u lleoli'n ôl mewn tir preifat. Mae waliau ffiniau o gerrig rwbel yn parhau â chymeriad cromliniol cul y brif dramwyfa ac atgyfnerthir hyn gan lystyfiant gardd uwch ben y waliau.

Mae palmentydd, lle bynnag maent i'w cael yn yr ardal gadwraeth, yn gul iawn ar y cyfan, ac yn rhai achosion maent yn is na lefel y briffordd y tu ôl i gwrbyn congrid uwch. Arwynebau tarmac a chyrbiau congrid sydd ar dir cyhoeddus y Stryd Fawr a Stryd y Bont gyda rhai eithriadau, megis y palmant o gwmpas y tri phwmp dŵr. Mae gan ffyrdd sy'n arwain oddi ar y brif dramwyfa i'r gorllewin natur wledig bleserus gydag ymylon glaswellt, cloddiau neu waliau cynnal rwbel wedi'u torri i'r tir uwch ac yn arwain yn gyflym at y cefn gwlad; i'r dwyrain, mae'r ffyrdd i'r ochr yn arwain i lawr llond llaw o eiddo masnachol ac olion festigiol diwydiannau'r porthladd gynt ar lannau'r afon Cynin.



Stryd Fawr gromlinog, gul gydag ymdeimlad o dir caeedig



Capel Mair a'r ysgol gynt wedi'u lleoli'n ôl oddi wrth linell gyffredin yr adeiladau



Eiddo mwy wedi'u lleoli ar frig y Stryd Fawr wedi'u gosod yn ôl o fewn tir preifat

5.2 Deunyddiau adeiladu

Mae'r delweddau a'r rhestr ganlynol yn nodi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr AG sydd naill ai'n cyfnerthu neu'n gwarchod nodweddion yr ardal.

Deunyddiau Traddodiadol

Cerrig rwbel Rendr

plastr garw Stwco

Cerrig llanw Carreg pennant

Addurniadau â brics

Addurniadau â cherrig

Gorchuddion to llechi Gwaith plwm

Gwaith pren wedi'i beintio

Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw

Triniaethau i ffiniau

Cerrig rwbel

Giatiau a rheiliau haearn bwrw neu gyr



5.3 Uchderau adeiladau a chysylltiadau â phlotiau

Tai teras yw'r adeiladau yn nodweddiadol, gydag 1½ i 2 lawr a chydag uchderau lloriau is sy'n creu graddfa dynn ac agos yn y strydlun cyfyng. Ceir eiddo mwy, ar wahân bob hyn a hyn, ond mae'r rhain gan amlaf yn dai mwy diweddar ac yn aml wedi'u gosod yn ôl oddi wrth linell gyffredinol yr adeiladau ar ochr y ffordd, ar blotiau mwy megis Tŷ Gardde-yr-Rebecca (diwedd 19G) ar ben gogleddol y Stryd Fawr a Rivendell (dechrau'r 20G), y tu ôl i Neuadd y Dref. Mae strwythurau hanesyddol mwy nodedig y Santes Fair Magdalen a Mwnt y Castell wedi'u cuddio i raddau rhag golygfeydd amlwg gan adeiladau llai bob ochr i'r brif dramwyfa gyfyng.

Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo teras nodweddiadol wedi'u gosod yn uniongyrchol ar ymyl y stryd, neu'r tu ôl i gwrth blaen bas wedi'i gau mewn wal neu reiliau isel. Mae toeau llechi deuol ar oleddf, gyda chribau'n rhedeg yn baralel i'r stryd, a simneiau brics. Mae gerddi preifat ac estyniadau niferus i'r cefn y tu ôl i'r teras mewn sribedi rheolaidd a all, yn rhai achosion, fod yn gysylltiedig â phatrwm aneddiadau Canoloesol. Mae ffiniau cefn yn rhan ddeheuol yr ardal gadwraeth yn debygol o gyd-fynd â llinell cylch amddiffyn y castell gynt. Nid yw'r anheddiad wedi ymestyn rhyw lawer y tu ôl i'r ffiniau cefn hyn a'r cefn gwlad sydd y tu ôl iddynt.



Llinell adeiladau a graddfa gyson ar Stryd y Bont



Eiddo teras 2 lawr ar Stryd y Bont



Cyrtau blaen bas ar hyd Stryd y Bont

Mae nifer o ddatblygiadau diweddarach sy'n amharu ar batrwm adeiladau'r 19eg Ganrif ac oherwydd hynny maent yn mynd yn groes i'r cyd-destun o'u cwmpas. O fewn yr AG, mae 'Lyndale' (gyferbyn â Cross House) yn fngalo ar ei ben ei hun sydd, yn ffodus, wedi'i osod yn ôl oddi wrth y brif linell adeiladau; mae 'Dre Twt' yn defnyddio sied iwtalitaraid gweddol amlwg yn un o ardaloedd mwy agored a gwyrdd y Stryd Fawr; byngalos pâr yn 1 a 2 'Maengwyn'. Mae rhagor o ddatblygiadau pâr, yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr 20fed Ganrif yn ffinio'r ardal gadwraeth, gan anwybyddu eu cymeriad, ar Lôn-y-Prior ac yn uniongyrchol i'r de o 'Gothic Villa'.



Eiddo teras yn uniongyrchol ar ymyl y stryd



Uchderau lloriau amrywiol ar y Stryd Fawr

5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol

Manylion cyffredin a welir ar draws yr AG

Ffenestri codi pren

Conglfeini stwco, bandiau, fframiau ffenestri a drysau

To llechi ar oledf gyda bondo gwastad

Simneiau brics

Waliau ffiniau o gerrig rwbel Rheiliau a giatiau
addurniadol o waith dur



5.5 Tir cyhoeddus; arwynebau, dodrefn stryd ac arwyddion

Ymddengys mai ychydig iawn o fuddsoddi sydd wedi bod yn nhir cyhoeddus yr AG yn ddiweddar.

Mae'r ffyrdd a'r palmentydd bob hyn a hyn i gyd wedi'u tarmacio, gydag ymylon palmant rhagfwrw neu goncrïd yn y fan a'r lle. Mae gan y fynedfa ogleddol i'r Stryd Fawr haen goch ar yr arwyneb a llinell wen solet ar y ddwy ochr i rwystro pobl rhag parcio yno. (Mae'r gorffeniad hwn wedi'i ailadrodd ar y bont dros y Taf, y tu hwnt i ben deheuol yr AG, ond ymddengys ei fod wedi gwisgo neu wedi'i waredu). Yn rhywle arall yn yr ardal gadwraeth, mae traffig cerbydau a pharcio yn ymwithgar ac yn gwneud symudiad cerddwyr yn lletchwith ac anghyfforddus. Mae tarmac yn aml yn ymestyn ar hyd cyrtiau blaen preifat a phalmant adeiladau, yn niwlio'r gwahaniaeth rhwng mannau cyhoeddus a phreifat.

Ym mhorth Stryd y Bont i Gastell Sanclêr, mae ardal fechan o balmentydd concrïd wedi'i chyflwyno i dorri ar yr undonedd, y tu ôl i res o bolion sy'n atal rhagor o barcio. Mae mainc a phanel dehongli wedi'u gosod ochr yn ochr â'i gilydd, gan adlewyrchu peth o'r gwerthfawrogiad o arwyddocâd treftadaeth y safle.

Fel arall, mae hon yn fynedfa ddigalon, heb fod yn ysbrydoledig i'r heneb.

Mae'r AG wedi'i gorchuddio'n rhannol gan Lwybr Treftadaeth Tref Sanclêr. Dechreu'r llwybr yn y dref 'uchaf' ac yn dilyn glan orllewinol yr afon Cynin i lawr y Santes Fair Magdalen cyn cysylltu â'r Stryd Fawr a Neuadd y Dref, ac yn mynd i'r de heibio'r Castell, gan ddod i ben yng nghei yr hen dref yng nghyffordd yr



Tarmac lliwgar ar frig y Stryd Fawr, cyrbau concrïd, palmentydd bob hyn a hyn



Tarmac, polion a phalmentydd ym mynedfa'r Castell

afonydd Taf a Chynin. Ceir rhagor o banelau dehongli mewn safleoedd allweddol i ategu at y panel yn y castell. Ar wahân i'r llwybr hwn, mae'r arwyddion a'r dodrefn stryd ar draws yr AG yn eithaf prin, modern ac iwtilitaraidd. Mae sawl polyn golau dur modern a llinellau pŵer uchel yn ychwanegu at yr annibendod gweledol.

Mae tri phwmp dŵr o'r 19th Ganrif ar hyd y Stryd Fawr a Stryd y Bont yn nodweddion diddorol sydd wedi goroesi, ac yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal. O gwmpas yr hen flwch ffôn K6 ar gornel Lôn-y-Prior ceir sawl pot blodau a blwch cyswllt, bin halen a bin sbwriel. Mae'r ffyrdd cefn a'r llwybrau ar lan yr afon o gwmpas ymyl yr ardal adeiledig yn dod yn fwyfwy lled-wledig yn eu natur.

Prin yw meinciau, ar wahân i barc chwarae'r plant o fewn beili'r castell; y tu hwnt i'r AG, mae mwy o seddi ar lan yr afon, gyda golygfeydd eang i'r cefn gwlad ar draws y Taf.



Darpariaeth wael i gerddwyr



Polion golau dur a llinellau pŵer uchel



Annibendod o gwmpas y blwch ffôn rhestredig



Tarmac, concrid a cheblau uchel

5.6 Deunyddiau ffiniau a thriniaethau

Mae nifer o du blaen yr adeiladau yn ffurfio'r ffin ar ymyl y stryd. Lle mae eiddo wedi'u gosod yn ôl, mae'r cyrtiau blaen ar y cyfan wedi'u cau gan wal isel o gerrig rwbel neu rendr, gyda rheiliau metel ambell waith. Yn y cefn, ychydig o gysondeb a geir i'r gerddi neu fuarthau cefn ac i raddau helaeth maent wedi'u disodli gan frics, blocs, ffensys neu lenni dur

a giatiau modern er preifatrwydd; mae'r rhain fel arfer yn mynd yn groes i gymeriad yr AG.

Mae rhai lloriau caled wedi'u cyflwyno yn nhu blaen a thu cefn eiddo, gan erydu ymhellach triniaethau i ffiniau hanesyddol. Mae hyn yn tynnu oddi ar yr AG, gan gael gwared ar ddiffiniad o ymyl y stryd a drysu strwythurau plotiau.



Triniaethau anghyson i ffiniau



Waliau ffin o gerrig rwbel ar Stryd y Bont



Colli'r ffin ger Green Park House



Lloriau caled o darnac gyferbyn â Neuadd y Dref

Er yr ymddengys bod llawer wedi'u colli neu eu haddasu ddiwedd yr 20fed Ganrif, mae elfennau pwysig yn yr AG, gan gynnwys:

- Wal rwbel batrymog, pileri a giât yr hen 'Gapel Penuel' (sydd bellach yn Peniel Villa)
- Wal gynnal o gerrig rwbel ar hyd ochrau'r Stryd Fawr
- 'Brynheulog'
- Wal o gerrig llanw, pileri, giât a rheiliau i Gapel Mair
- Wal gynnal o gerrig rwbel i gyrtiau blaen uwch
- 'Kieffe House' a 'The Kieffe'
- Rheiliau metel Green Park House



Wal rwbel batrymog, pileri a giât yr hen 'Gapel Penuel'



Wal gynnal o gerrig rwbel ar frig y Stryd Fawr



Wal o gerrig llanw, pileri, giât a rheiliau i Gapel Mair



Wal gynnal o gerrig rwbel i gyrtiau blaen uwch 'Kieffe House' a 'The Kieffe'

6.0 Dadansoddiad

6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth


Yn ogystal â'r adeiladau nodedig sydd wedi'u nodi yn adran 4.1, mae llawer mwy o adeiladau mawr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gall hyn fod am sawl rheswm gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad at y treflun, ansawdd pensaernïol, nodweddion addurniadol, neu gysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.

Er bod nifer o adeiladau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal gadwraeth, mewn sawl achos mae ansawdd eu pensaernïaeth wedi'i gyfaddawdu gan addasiadau gwael. Mewn perthynas ag eiddo domestig, mae hyn yn debygol o ddigwydd drwy golli nodweddion hanesyddol megis ffenestri codi pren. Er gwaethaf hyn, mae'r adeiladau hyn yn dal i ddangos priodweddau cryf a chyfraniadau cadarnhaol y gellir eu gwella'n fawr drwy atgyweirio'r addasiadau sy'n tynnu oddi ar yr adeiladau. Byddai ceisiadau i ddad-wneud addasiadau ansensitif fel cais annibynnol neu fel rhan o ailddatblygiad yn cael eu cefnogi.

6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi ar yr Ardal Gadwraeth

Adnabyddir adeiladau negyddol fel y rheini sydd, oherwydd eu graddfa, dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghydweddol mewn perthynas â phrif nodwedd yr ardal gadwraeth. Gellid eu hystyried yn ymgeiswyr posibl ar gyfer eu hail-ddatblygu, er yn rhai achosion gallant fod yn addas ar gyfer addasiadau er mwyn lliniaru'r gwastraff o ynni corfforedig a'r effeithiau sydd ynghlwm ag ail-ddatblygu.

Mae adeiladau cadarnhaol a'r rhai sy'n tynnu oddi ar yr ardal i'w gweld ar y map canlynol.



7.0 Arwyddocâd

Un o'r egwyddorion arweiniol i reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth am arwyddocâd yr ased hwnnw, boed yn adeilad, lle, neu rywun sy'n fwy anniriaethol. Mae arfer dda yn awgrymu asesu arwyddocâd mewn cymhariaeth â chfres o werthoedd sydd wedi'u nodi yn:

Gwerth Tystiolaethol; Yr olion a'r deunydd ffisegol sy'n goroesi ac yn dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol; Sut all yr ardal roi dealltwriaeth i ni am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd yn y gorffennol

Gwerth Esthetig; A yw'n brofiad braf crwydro'r ardal a chael profiad ohoni?

Gwerth Cymunedol; Y gwerth mae'n ei roi i'r bobl sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio ynddi ac yn ymweld â hi

Efallai fod pob un o'r gwerthoedd hyn yn bodoli ar lefelau amrywiol, o isel i uchel, ac mae'n bwysig deall hynny. Yn ogystal, mae'n bwysig cydnabod yr eitemau hynny y mae eu perthnasedd y tu hwnt i'r categorïau hyn neu'n berthnasol i sawl categori ar lefelau gwahanol. Gall hyn godi yn arbennig wrth ystyried y nodweddion hynny sy'n creu ymdeimlad o le.

Mae'r crynodeb canlynol yn nodi'r eitemau o arwyddocâd allweddol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Dilyniir hwn gan archwiliad manylach o bob eitem ac yn y casgliad nodir sut mae pob un yn gysylltiedig â gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig, a chymunedol ac ar ba lefel.

- Safle strategol y castell o le y datblygodd y dref
- Patrwm stryd, rhaniadau a thir caeedig Canoloesol amlwg
- Y Santes Fair Magdalen, eglwys y plwyf a'r cyn-briordy
- Henebion cofrestredig Castell Sanclêr ac adeiladau Clwystrol Priordy Sanclêr sydd â photensial archaeolegol uchel
- Hanes o fasnachu morol gyda thystiolaeth o ddiwydiant yn y gorffennol
- Golygfeydd arwyddocaol i'r ardal, ohoni a thrwyddi oherwydd y topograffi
- Adeiladau ag arwyddocâd lleol a rhanbarthol
- Ymdeimlad cryf o dir caeedig ar hyd y Stryd Fawr gul gyda golygfeydd ehangach a chipolygfeydd
- Yn dangos twf y dref yn ystod y 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif, gyda dulliau trafniadaeth yn newid

Safle Amddiffyn Strategol

Wedi'i leoli yn rhan fordwyadwy uchaf yr afonydd, cydnabwyd pwysigrwydd strategol y safle pan adeiladwyd y castell Eingl-Normanaidd ddiwedd yr 11eg Ganrif. Tyfodd tref Sanclêr yn ei sgil fel cyfres o diroedd bwrtais. Ar y cyd â sefydlu'r priordy i'r gogledd, gellir olrhain gwreiddiau'r dref bresennol yn ôl i'r man hwn, er bod y canol masnachol wedi symud ymhellach i'r gogledd erbyn hyn er mwyn bodloni'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd diweddarach.

Strwythur Canoloesol

Mae cynllun adran ddeheuol yr AG wedi'i ddylanwadu'n gryf gan strwythur cylchoedd amddiffyn y castell sy'n weladwy o'r ffyrdd,

llwybrau a'r ffiniau cefn, sy'n awgrymu bod Sanclêr wedi datblygu o'u cwmpas yn y Canoloesoedd. Mae rhesaid gromlinog hir Stryd y Bont a'r Stryd Fawr yn codi o fan croesi'r bont dros yr afon Taf, i fyny'r ardal o gwmpas y cyn-Briordy a oedd i'r gogledd o'r dref Ganoloesol y tu hwnt i'w amddiffyniadau. Mae'r strwythur yn parhau i fod yn gyfan i raddau helaeth, ac yn parhau i fod yn sail i ddatblygiad a'r ffordd mae pobl yn symud drwy'r ardal ac yn ei phrofi.

Y Santes Fair Magdalen

Mae'r eglwys ganoloesol, ei lleoliad mewn tirlun hael a'r cefndir hanesyddol cyffredin fel eglwys priordy, yn gwneud hwn yn un o asedau treftadaeth mwyaf arwyddocaol yr AG. Mae potensial archaeolegol ar safle'r adeiladau Clwystrol.

Henebion cofrestredig gyda photensial archaeolegol uchel Adnabwyd Sanclêr fel lleoliad sydd â photensial archaeolegol ar gyfer rhagor o ymchwil o'r cyfnodau Canoloesol ac Ôl-ganoloesol. Yn sgil cloddfeydd bach yng nghraidd hanesyddol y dref, canfuwyd y gellir dod o hyd i olion o'r 12fed Ganrif ymlaen o gwmpas yr AG. Mae amddiffynfeydd y dref hefyd yn caniatáu rhagor o ymchwilio ar ochrau gorllewinol a dwyreiniol yr AG, yn yr un modd ag eglwys y Santes Fair Magdalen.

Masnachu Morol

Mae cysylltiad y dref â masnachu morol yn dyddio'n ôl i'w gwreiddiau ac yn hollbwysig er mwyn deall tarddiad a datblygiad yr anheddiad. Mae cysylltiadau mwyaf amlwg yr afonydd amgylchynol a'r hen geiau i gyd y tu hwnt i'r AG ac wedi'u cuddio gan y topograffi. Wedi dweud hynny, mae rhai warysau ac adeiladau storio yn parhau i fod yn yr AG sy'n arwydd o'r gweithgareddau hyn yn y gorffennol a gallant fod yn sail i ddealltwriaeth hanesyddol am esblygiad y dref.

Golygfeydd sylweddol

Yn sgil y topograffi o gwmpas a lleoliad strategol dilynol y dref, ceir cyfres o olygfeydd pwysig i'r AG, ohoni a thrwyddi, gan gynnwys golygfeydd o strydoedd sy'n troi'n raddol gyda chipolygfeydd sydyn o'r tirlun ehangach y tu hwnt. Mae pob un o'r golygfeydd hyn yn rhoi persbectif gwahanol o'r ardal, sut mae wedi datblygu ac addasu'r ffordd mae rhywun yn symud ac yn profi pob rhan.

Adeiladau ag arwyddocâd lleol a rhanbarthol

Mae adeiladau a strwythurau yn yr AG sy'n adeiladau rhestredig oherwydd eu hansawdd pensaernïol a'u diddordeb hanesyddol. Fel y cyfryw, nid yn unig mae'r rhain yn elfennau esthetig o ansawdd, ond maent hefyd yn gymorth i egluro gweithgareddau, traddodiadau a digwyddiadau'r gorffennol. Lle bynnag mae deunydd hanesyddol yn goroesi, gall hyn arwain y ffordd i ail-gyflwyno manylion sydd wedi'u colli ac ysbrydoli datblygiad y dyfodol, gan atgyfnerthu cymeriad unigryw yr ardal.

Mannau caeedig a golygfeydd allan


Mae eiddo teras isel ar ymyl y stryd ar ddwy ochr Stryd y Bont a'r Stryd Fawr, sy'n creu stryd gul ac agos, gyda rhai ymyriadau iddi. Mae bylchau achlysurol yn y llinell adeiladau pan geir ffyrdd a phyrth, gan ganiatáu cipolygfeydd wedi'u fframio o'r cefn gwlad a'r tir fferm y tu ôl. Mae hyn yn creu amrywiaeth a diddordeb ac yn annog archwilio a chanfod.

Datblygiad yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif

Yn sgil dirywiad yn y masnachu morol, a'r ymestyniad i drafndiaeth y ffordd a'r rheilffyrdd yn y 19eg ganrif, cafwyd effaith sylweddol ar weithgareddau a defnyddiau'r AG, a symudodd y canol masnachol filltir tua'r gogledd. Erbyn hyn ardal breswyl yw'r AG yn bennaf ac mae wedi colli ei rôl ddinesig a masnachol i raddau helaeth, gyda nifer o eiddo cysylltiedig yn cael bywyd newydd neu'n wag.

	Gwerth Tystiolaethol	Gwerth Hanesyddol	Gwerth Esthetig	Gwerth Cymunedol
Safle amddiffyn strategol				
Strwythur Canoloesol				
Y Santes Fair Magdalen				
Henebion rhestredig a photensial archaeolegol				
Masnachu Morol				
Golygfeydd sylweddol				
Adeiladau ag arwyddocâd lleol a rhanbarthol				
Mannau caeedig a golygfeydd allan				
Datblygiad yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif				

Gwerth Isel
Gwerth Canolig
Gwerth Uchel



8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli

Trosolwg strategol

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau y rhoddir 'sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw ran o'u hardaloedd sy'n ardaloedd cadwraeth' (Adran 71).

Gweler y tabl canlynol am grynoded o'r prif faterion a'r bygythiadau a gafodd eu hadnabod wrth baratoi Gwerthusiad Nodweddion Ardal ar gyfer Sanclêr. Ynghlwm â phob eitem mae argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac nid yw'n eithrio eitemau ychwanegol a allai gyflwyno eu hunain yn y presennol neu wrth ddatblygu'r AG yn y dyfodol.

Mae'r materion dan sylw yn ymwneud â'r eitemau sy'n achosi niwed i ymddangosiad a/neu gymeriad yr ardal. Bygythiadau yw'r eitemau hynny nad ydynt yn achosi niwed ond gallant achosi niwed drwy addasiad ansensitif. Dylai'r eitemau hynny sydd wedi'u hadnabod fel materion gael eu hystyried fel y rheini sy'n cyflwyno bygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un ceir argymhelliad rheoli i sicrhau bod cymeriad, ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd a'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion hyn

ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol fod yn sail i gynhyrchu dogfen bolisi fwy manwl ac ehangach ar gyfer rheoli'r ardal, wedi'i chreu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r materion wedi'u hadnabod drwy ymweliadau â'r safle, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir ac aelodau'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth deunyddiau hanesyddol sy'n bodoli ac effaith datblygiadau newydd ar gymeriad ac ymddangosiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hadnabod i effeithio ar dir cyhoeddus.

Ceir enghreifftiau er mwyn dangos esiamplau da a drwg o reolaeth yr eitemau hyn i gynnig rhagor o arweiniad wrth ystyried datblygu yn yr ardal. Mae'n bwysig bod y canlynol yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r holl ddogfennau cyfarwyddyd a pholisïau perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033 CSC a chanllawiau cynllunio atodol.

Eitem	Mater	Rheolaeth
1.0 Golygfeydd a lleoliad		
1.1	Mae strydoedd ochr, y gweddau ar yr ystlys a'r cefn a ffiniau adeiladau yn rhan nodweddiadol o'r AG, gan gynnig cipolygfeydd oddi wrth y brif dramwyfa. Oherwydd diffyg gwelededd ymddangosiadol, gall yr ardaloedd hyn ddioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol ar dir cyhoeddus a thriniaethau i ffiniau, sy'n erydu cymeriad ardaloedd yr AG.	Dylid asesu'n ofalus cynigion i ddatblygu i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad ac ymddangosiad y strydoedd ochr a'r adeiladau cefn, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol. Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt.
1.2	Gall fod yn dasg anodd gwarchod golygfeydd i'r AG ac ohoni, oherwydd ar adegau gall adeiladau sydd â'r potensial i effeithio ar olygfeydd allweddol fod y tu hwnt i'r ardaloedd gwarchodedig megis yr AG; a dim ond ar ôl eu hadeiladu y daw eu heffaith yn gwbl amlwg. Gall datblygiadau effeithio ar flaendir neu gefndir golygfeydd pwysig. Er enghraifft, mae cyflwyno tai cyfoes ar lannau'r afon wedi effeithio ar olygfeydd i'r AG gan effeithio ar osodiad y castell.	Dylid asesu'n ofalus datblygiadau o fewn yr ardal gadwraeth i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig ar ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol. Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt. Dylai cynigion sydd â'r potensial i effeithio a rhwystro golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, gael eu hystyried yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sy'n dangos effaith cynigion er mwyn dangos yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal neu ei gosodiad.



2.0 Dymchwel adeiladau neu ffiniau

- 2.1 Gall colli adeiladau neu waliau a rheiliau ffiniau dorri i lawr yr ymdeimlad o dir caeedig, cynyddu uchafiaeth traffig a'r tirluniau caled cysylltiedig, ac arwain at weddau gwag ar dalcenni adeiladau.

Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn creu bylchau modern a fyddai'n amharu ar olygfeydd pellgyrhaeddol o linellau stryd sefydledig.



3.0 Ailddatblygu

- 3.1 Gall defnyddio deunyddiau modern nad ydynt yn cyd-fynd â'r cyfuniad presennol o ddeunyddiau neu nad yw'n briodol eu defnyddio, erydu cymeriad hanesyddol ac arwyddocâd yr AG. Er y dylai adeilad fod yn addas i'r presennol, bydd peth gwarchodaeth o gyfuniad o ddeunyddiau gwreiddiol yr AG yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, mae adeiladau sydd wedi'u dylunio'n wael wedi achosi niwed i'r AG; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniadau'r 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif rhag achosi rhagor o niwed.

Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Ar y cyfan, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleodedd 2020.



- 3.2 Mae'r pwysau am dai modern wedi arwain at lenwi plotiau ar y Stryd Fawr a Stryd y Bont, yn aml gyda dyluniadau ansensitif nad ydynt yn ymateb i gymeriad yr AG.

Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir.



Eitem	Mater	Rheolaeth
4.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol		
4.1	Mae topograffi'r ardal yn golygu y gall toeau effeithio'n sylweddol ar olygfeydd a gall cyflwyno eitemau megis erialau a dysglau lloeren ar doeau erydu cymeriad, yn enwedig adeiladau sydd â'r un arddull.	Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o'r fath.
4.2	Gall yr hyn sy'n ymddangos yn fân weithiau gael effaith gronnus ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd a gosodiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: Gro chwipio neu rendrau sment caled, ffenestri/drysau PVC newydd, gwasanaethau allanol newydd wedi'u gosod mewn lle amlwg, dysglau lloeren, colli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw, gosod teils concrid yn lle llechi, colli teils crib addurniadol, colli ffasgia neu ymylon bondo addurniadol, colli ffiniau hanesyddol megis rheiliau a waliau o gerrig rwbel.	Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y manylion pensaernïol nodweddiadol, megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai'r canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae'n briodol.
4.3	Ymddengys bod gwaith anawdurdodedig i adeiladau yn broblem gyffredin, gan gynnwys gwaith megis disodli nodweddion hanesyddol fel ffenestri a drysau. Mae hyn wedi arwain at erydiad sefydlog o gymeriad rhai rhannau o'r AG. Pan mae gwaith anawdurdodedig wedi'i wneud, gall hyn annog perchnogion eiddo eraill i wneud gwaith tebyg a gall arwain at effaith gronnol ar raddfa fwy.	Pan mae'n briodol, dylai'r cyngor geisio camau gweithredu gorfodol er mwyn datrys gwaith sydd heb ei awdurdodi. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y lliwiau nodweddiadol, manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau nad oes angen caniatâd ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Eitem	Mater	Rheolaeth
4.4	Ymddengys nad yw safonau atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau wedi'u cynnal ar draws yr AG gan fod nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr AG, mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar olygfeydd a gall arwain at golli asedau treftadaeth arwyddocaol yn rhannol neu'n llwyr.	Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau a'r strwythurau o fewn yr Ardal Gadwraeth.

5.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd

5.1	Gall mwy o draffig a rheolaeth wael o barcio gael effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, gan achosi colled mewn amwynderau i gerddwyr, ac absenoldeb lleoedd a fyddai fel arall yn caniatáu eneidiau o fyfrio a gwerthfawrogi. Mae mannau croesi prin a phalmentydd cul hefyd yn achosi problemau i gerddwyr wrth iddynt werthfawrogi adeiladau, a hynny oherwydd dwyster y traffig yn cymylu lloriau is. Mae hon yn broblem ar draws yr AG.	Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o bedestreiddio a gwella strwythur ffyrdd. Bydd y Cyngor yn annog a chefnogi cynigion ar gyfer gwella'r cysylltedd i gerddwyr a beicwyr ac sy'n ymgorffori mannau cyhoeddus.
5.2	Gellid gwella'n rhwydd y dodrefn stryd prin sydd i'w cael yn yr AG. Mae polion golau modern a cheblau trydan uchel yn elfen barhaus ac annymunol. Mae'r arwyddion, polion, rhwystrau a biniau prin yn anghyson ac yn ddarpariaeth brin i gerddwyr.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd.



Eitem	Mater	Rheolaeth
5.3	Mae'r ffyrdd a'r palmentydd i gyd wedi'u gwneud o ddeunyddiau modern a gallant dynnu oddi ar leoliad yr adeiladau a'r mannau cyhoeddus. Mae rhan helaeth o'r tir cyhoeddus wedi'i ddominyddu gan barcio oddi ar y stryd gyda lloriau caled sy'n amharu ar linell ffiniau hanesyddol a thir caeedig.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd.
5.4	Mae Llwybr Treftadaeth y Dref yn eithriad dymunol sy'n hyrwyddo gwerth hanesyddol ardaloedd o'r AG ac yn helpu i gysylltu'r ardal â'i chyd-destun ehangach heb ddibynnu'n llwyr ar drafnidiaeth gerbydol. Mae angen ymestyn y fenter hon ochr yn ochr â gwelliannau eraill i'r tir cyhoeddus.	Dylid dylunio arwyddion a dodrefn yn sensitif a'u hymgorffori yn y stryd. Byddai dull cydlynol yn helpu i uno cymeriad yr ardal a gwella ansawdd y tir cyhoeddus. Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ynghylch dylunio arwyddion a dodrefn stryd yn yr ardal gadwraeth, er mwyn sicrhau y cyflawnir dull cyson ac o ansawdd dda. Mae cwmpas i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, defnyddio deunyddiau mwy traddodiadol ar gyfer palmentydd, a mwy o blanhigion yn y stryd ar draws yr ardal gadwraeth.

6.0 Triniaethau i ffiniau a pharcio

6.1	Mae'r cynnydd yn y galw am barcio wedi arwain at golled yn y triniaethau hanesyddol i ffiniau er mwyn ymgorffori lloriau caled a lleoedd parcio drwy gydol yr AG. Gall hyn wanhau caledwch ymyl y stryd sy'n nodweddiadol o'r ardal ac amharu ar olygfeydd drwy'r AG, i mewn iddi ac allan ohoni.	Dylid cefnogi ailgyflwyno waliau ffiniau traddodiadol. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau ffiniau hanesyddol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau i waliau ffiniau hanesyddol, waeth beth fo'u uchder.
-----	---	--



Eitem	Mater	Rheolaeth
6.2	Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a thirlunio caled, nad ydynt yn cyd-fynd â'r AG nac o ansawdd ddigonol, wanhau cymeriad ac amharu ar olygfeydd.	Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y manylion pensaernïol nodweddiadol, megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth.

Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
7.0 Golygfeydd a gosodiad		
7.1	Mae'r mannau gwyrdd cyfredol a hen lannau cei ger yr afon angen eu gwarchod er mwyn rheoli golygfeydd i'r AG o'r de a'r dwyrain.	Dylid cynnal yn weithredol mannau gwyrdd sylweddol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig, a'u gwerth ecolegol, yn cael ei gadw a'i wella. Mae lle ar gyfer mwy o goed ac i blannu pethau eraill er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial am fioamrywiaeth, ac mae hyn yn rhywbeth i'w annog. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal.
8.0 Dymchwel adeiladau a strwythurau		
8.1	Gall dymchwel, yn llwyr neu'n rhannol, adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu ymddangosiad yr AG erydu ansawdd bensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer eu hailddatblygu neu ardaloedd rhannol megis simneiau, waliau ffin ac estyniadau.	Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
8.2	Gellir defnyddio cyflwr gwael adeiladau gwag neu sydd wedi dioddef o ddiffyg cynnal a chadw i roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol ar gyfer dymchwel ac ailddatblygu. Gall hyn arwain at y camddealltwriaeth bod ailddatblygu yn briodol, pan allai rheolaeth ofalus o addasiadau'r dyfodol ailgyflwyno cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, atgyfnerthu'r AG, ac osgoi colli'r carbon corfforedig sydd eisoes yn gysylltiedig â'i waith adeiladu gwreiddiol.	Pan mae tystiolaeth o esgeulustod bwriadol i ased treftadaeth, neu ddifrod iddo, ni ddylid ystyried cyflwr gwael yr ased mewn unrhyw benderfyniad. Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r rhain. Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yno. Dylid annog gofalu ac aildefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni gwell. Dylid annog ailgyflwyno nodweddion traddodiadol drwy greu canllaw dylunio sy'n arbennig ar gyfer yr AG. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

9.0 Ailddatblygu

9.1	Mae cysondeb yn ymwneud ag uchder lloriau, màs, deunydd, manylion pensaernïol, maint y plot a'r berthynas â'r stryd yn golygu bod unrhyw wyriadau yn cael effaith ddramatig. Gall hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol ond mae'n gofyn ystyriaeth ofalus.	Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw yr ardal gadwraeth, ei hardaloedd â chymeriad a'i lleoliad, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleuedd 2020.
-----	---	---

Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
10.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol		
10.1	Gall colli nodweddion megis gwaith pren, fframiau drysau, canopïau, manylion stwco etc. ac addasu meintiau ffenestri neu gyflwyno dormeri neu ddrysau garej newid yn sylfaenol cymeriad eiddo a chael effaith niweidiol ar yr AG.	Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal er mwyn cynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth.
11.0 Tirlunio		
11.1	Mae mannau gwyrdd a choed yn darparu seibiannau pwysig yn yr amgylchedd adeiledig ac yn helpu i fod yn sail i ddealltwriaeth am strwythur a datblygiad y dref a gall eu colli gael effaith niweidiol sylweddol ar gymeriad yr ardal.	Mae lle ar gyfer mwy o goed ac i blannu pethau eraill er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial am fioamrywiaeth, ac mae hyn yn rhywbeth i'w annog. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal.



12.0 Cyffredinol

- | | | |
|------|--------------------------------------|---|
| 12.1 | Archaeoleg | Wrth ystyried unrhyw gynnig am ddatblygiad sylweddol, dylid asesu'n broffesiynol yr effaith bosibl ar olion archaeolegol a chymryd cyngor o ran y ffordd orau o'u cadw a'u gwarchod. |
| 12.2 | Yr Argyfwng Hinsawdd | <p>Dylid ystyried yn ofalus cynigion i ôl-osod er mwyn gwella effeithiolrwydd ynni i sicrhau cydnawsedd â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ymarferoldeb ac arwyddocâd.</p> <p>Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yno. Dylid annog gofalu ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni gwell.</p> |
| 12.3 | Gweithredu ac Adolygu | Mae angen glynu wrth yr holl ddyletswyddau statudol dan y Deddfau Cynllunio yn sgil dynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a geir yma a ffurfio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir i'r adroddiad hwn ffurfio sylfaen hwn) i'w adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y polisiau yn parhau i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r Cyngor geisio ymgymryd ag astudiaethau perthnasol eraill a chreu rhagor o arweiniad fel y nodwyd yma, pan mae'r adnoddau ar gyfer hyn ar gael. |
| 12.4 | Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth | Dylid darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ymgeiswyr, lle ystyrir bod cynnig yn effeithio ar yr ardal gadwraeth (boed yn y ffin neu ei osodiad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi. |

9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd canlynol yn ymwneud â phosibiliadau adnabyddedig ar gyfer dad-wneud niwed, gwella'r ardal a gwerthfawrogiad ohoni, neu reoli datblygiad.


Mae'r rhain wedi'u hadnabod drwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran materion, bygythiadau a rheolaeth flaenorol.

1. Ymddengys bod yr adeiladau rhestredig arwyddocaol sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau allweddol ar hyd y Stryd Fawr megis Neuadd y Dref, Cross House a'r Cross Stores gyferbyn, a Chapel Mair, wedi'u hesgeuluso ac yn ddi-dddefnydd i raddau helaeth, gan leihau eu cyfraniad posibl at gymeriad a gweithgarwch yr AG. Mae'r adeiladau hyn wedi'u gosod yn ôl oddi wrth y llinell adeiladau gyffredinol ac yn rhoi seibiant rhag natur linelllog, gul y brif dramwyfa. Gallai atgyweirio a gwella'r adeiladau a'u gosodiadau yn ofalus annog gwerthfawrogiad a mwynhad yr AG, gan ysgogi gwelliannau ehangach.
2. Mae Castell Sanclêr wedi'i guddio yn bennaf oddi wrth yr AG a rhwydd yw ei fethu oherwydd y fynedfa adwyog iwtilitaraidd ar hyd Stryd y Bont. Gallai ailddylunio'r fynedfa yn ofalus annog pobl i archwilio'r rhan hollbwysig hon o hanes y dref a helpu i ailgysylltu'r Castell â'r tir cyhoeddus.



3. Mae cyfle i fanteisio mwy ar y nodweddion sydd wedi goroesi ac sy'n ymwneud â diwydiant y dref yn y gorffennol a chysylltiadau masnachu fel porthladd ar afon, ac i ddeall yn well tarddiad a datblygiad yr anheddiad. Y cysylltiadau mwyaf amlwg yw'r afonydd amgylchynol a'r hen geiau sydd y tu hwnt i'r AG ac wedi'u cuddio o'r tu mewn iddi gan y topograffi. Wedi dweud hynny, mae rhai wrysau ac adeiladau storio yn parhau i fod yn yr AG sy'n arwydd o'r gweithgareddau hyn yn y gorffennol a gallant fod yn sail i ddealltwriaeth hanesyddol am esblygiad y dref.
4. Gellid gwella ansawdd y tir cyhoeddus drwy gydol yr AG. Wrth i'r cyfle godi, gallai cyflwyno palmentydd a deunyddiau ffiniau, llwybrau, goleuadau, a dodrefn cyson ac o ansawdd ar dir cyhoeddus gynyddu'r defnydd o fannau allweddol, a mynediad atynt, ac yn ei dro hyrwyddo gofal a gwerthfawrogiad gwell. Gallai hyn ryddhau ehangder anfaddeugar y tarmac a'r cyrbiau concriid cysylltiedig, a lliniaru annibendod gweledol polion golau dur modern a llinellau pŵer uchel.







Atodiadau

Atodiad I: Llyfryddiaeth

Publications

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Polisi Cynllunio Cymru, Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy

Canllaw Creu Lleoedd 2020
[PlacemakingGuideDigitalENG.pdf \(dcfw.org\)](#)

Websites

British Listed Buildings, Dyddiadau amrywiol, British [Listed Buildings - History in Structure](#), 1-10 Mawrth 2022

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, [Mapiau Degwm Cymru - Hafan \(llyfrgell.cymru\)](#) 14 Mawrth 2022

The National Library of Scotland, 2021, Mapiau OS â dyddiadau amrywiol, [Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland \(nls.uk\)](#) 1 - 14 Mawrth 2022

British Property Foundation, 2017, Heritage Works: A toolkit of best practice in heritage regeneration, [BPF- Heritage Works: A toolkit of best practice in heritage regeneration](#), 26 Mawrth 2022

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, 2021, The Archaeology of the Medieval Towns of Southwest Wales; St Clears, [EPRN 125663 ST CLEARs.pdf \(dyfedarchaeology.org.uk\)](#) Chwefror 2021

Atodiad II: Geirfa

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad	Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
A4D	Cyfarwyddyd Erthygl 4	Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio.	CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin	
			GDO	Gorchymyn Datblygu Cyffredinol	Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer
BAR	Adeilad Mewn Perygl	Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem.		Cadw	Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru
			ARh	Adeilad Rhestredig	Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd 1 am y pwysicaf, Gradd 2* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd 2 am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm
AG	Ardal Gadwraeth	Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella			
GAG	Gwerthusiad Ardal Gadwraeth	Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol			
CPO	Gorchymyn Prynu Gorfodol	Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg		Llain Tir Bwrtais	Mae llain tir tir bwrtais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol
	Ffascgia	Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop			



Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad	Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
LBC	Caniatâd Adeilad Rhestredig	Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol	Sn215	Hysbysiad Adran 215	Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal
CLI	Cynllun Lleol	Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill.	SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol	Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw
PPW	Polisi Cynllunio Cymru	Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio	TPO	Gorchymyn Cadw Coed	Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol
Deddf P(LBCA) 1990	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol			
	Hysbysiad Atgyweirio	Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig			



- St.Cleairs Conservation Area Boundary
- Proposed boundary alteration
- Positive buildings
- Detracting buildings

St. Clears Conservation Area

Contribution of Buildings




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

KEY:

- St. Clears Conservation Area Boundary
- Proposed boundary alteration
- Pedestrian routes / paths
- Historic shopfront
- ★ Townscape feature
- Tower
- Street furniture

St. Clears Conservation Area
 Public Realm



KEY:

- St.Clears Conservation Area Boundary
- Proposed boundary alteration
- Areas which offer a sense of place
- /// Areas which offer a sense of enclosure
- Positive green areas / landscaping / trees
- Significant roofscapes
- ★ Main landmark / key buildings
- Important landscape views
- Important street views
- ┐ Terminated views

Atodiad IV: Adolygiad o'r

Fel rhan o baratoi'r Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli hwn, ymgwymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth i ddeall y rhesymeg dros ddynodi'r ardal, a pha un ai a yw datblygiad ers ei ddynodiad cychwynnol yn golygu y dylid ail-lunio'r ffin hon ai peidio. Ymgwymerwyd â'r adolygiad hwn drwy gyfres o ymweliadau safle, yn ogystal ag ymchwil ddesg ac ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae un addasiad awgrymedig ar gyfer Ardal Gadwraeth Sanclêr, y mae'r cwbl i'w gweld ar y map canlynol. Mae lleoliad yr addasiad hwn a'r rheswm drosto wedi'u nodi isod:

Ardal - Stryd y Bont, Manor Daf Gardens a'r Cei

Parhad Stryd y Bont, ychwanegiad Manor Daf Gardens, a'r hen gei ar afonydd Taf a Chynin.

Mae Pont Sanclêr a'r hen gysylltiadau masnachu a diwydiannau Canoloesol, ac agweddau allweddol ar esblygiad y dref yn y lleoliad hwn a gallant gyfnerthu dealltwriaeth am yr AG. Mae'r cei o gerrig, y bont dros y Taf a'r llithrfa i'r afon Cynin hefyd yn ffurfio rhan bwysig o leoliad yr AG, ac yn enwedig lleoliad y castell, o wedd ddeheuol y dref. Mae potensial archaeolegol uchel gan fod ceiau a glanfeydd yn dyddio'n ôl i'r 12fed Ganrif yn goroesi fel dyddodion yn y dŵr ar lannau'r afon lanw. Mae llwybr treftadaeth y dref eisoes yn cydnabod y gwerth treftadaeth hwn a dylai unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau gael eu hystyried fel rhan annatod o'r AG.



Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- Awdurdodau cynllunio lleol i bennu ardaloedd y mae'n ddymunol eu gwarchod a'u gwella, a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth (adran 69 [1])
- Awdurdodau cynllunio lleol i adolygu eu gweithgareddau blaenorol yn yr ardal hon, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth cyfredol, ac ychwanegu mwy o ardaloedd cadwraeth (section 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol i ffurfio a chyhoeddi cynigion ar gyfer gwarchod a gwella ardaloedd cadwraeth ac ymgynghori'r cyhoedd mewn perthynas â'r ardal dan sylw, ac ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu mynegi (adran 71 [1 a 2])
- Fel rhan o waith awdurdodau cynllunio lleol, bydd swyddogaethau cynllunio yn yr ardal gadwraeth yn 'talw sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, y mae'n rhaid iddynt sefydlu a chyhoeddi amcanion wedi'u dylunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, wedi'i ddisgrifio fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg'. Mae cysylltiadau clir rhwng y ddyletswydd benodol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol drwy'r

Ddeddf 1990, a'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a gwarchod treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth sy'n cael eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant pawb.

Polisi Cynllunio Cymru Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol sy'n adnabyddus fel asedau hanesyddol. Ystyrir ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.6 bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amgylcheddau hanesyddol yn ceisio: [...] gwarchod neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.14 y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg a gwreiddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/ neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi gwerthusiadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.15 bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddion cyhoeddus.

- Paragraph 6.1.16 notes that preservation or • Nodir ym Mharagraff 6.1.16 y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu
- nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.17 bod dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.29 y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol yn ymwneud â:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisiâu sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau

rhrestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ni ddylent gynnwys datganiadau neu gynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.

- Nodir ym Mharagraff 1.36 bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhrestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Nodir y canlynol yn y ddogfen hon:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddifiniol am eu ffiniau.

- Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gall canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: • Cynlluniau rheoli'r ardal gadwraeth.
- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adnabod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen rhagor o ddynodiadau neu adolygiadau. Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru rymoedd i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Grym wrth gefn yw hwn sy'n cael ei ddefnyddio yn achosion eithriadol, er enghraifft, pan mae gan ardal ddiddordeb sy'n fwy na diddordeb lleol.

6.2 Mae dynodi ardal gadwraeth yn rhoi'r sylfaen ar gyfer polisïau sydd wedi'u dylunio i gadw neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gall hyn gynnwys patrwm yr anheddiad a threfn y lle a'r llwybrau, yn ogystal ag arddull a math yr adeilad, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Gall seilwaith gwyrdd fod o bwys hefyd, ond nid yw dynodi rhywle yn ardal gadwraeth yn ffordd briodol o warchod nodweddion y tirlun, ac eithrio pan maent yn ffurfio rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 O bryd i'w gilydd, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer

cadw a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol ag arfer orau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeg mlynedd. Mae'n arfer dda i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio ategol. Rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dan amgylchiadau eithriadol lle nad yw rhan o ardal gadwraeth, neu ardal gadwraeth gyfan, bellach yn cynnwys y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi, gellir addasu neu ganslo'r dynodiad hwnnw.

6.4 Gwerthusiad ardal cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynnig i warchod neu wella. Mae'n cynnig darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau gweithredu a all roi sylfaen am gynllun rheoli mwy manwl. Dylai gynnwys dadansoddiad o'r polisi ac anghenion rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd rheolyddion cynllunio cyfredol, yr angen am warchodaeth atodol ac adnabod ffyrdd o warchod neu wella cymeriad arbennig. Bydd sylfaen fwy cadarn i bolisïau'r cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd cadwraeth ac yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol i nodau hirdymor os yw cymeriad pob ardal gadwraeth wedi'i ddiffinio ac os yw'r polisïau er mwyn ei gwarchod a'i gwella wedi'u nodi'n fanwl mewn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Oherwydd eu natur, mae gan ardaloedd cadwraeth nifer o randdeiliaid a dylai'r trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gyfrannu at y cynllun a gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â'r broses honno. Bydd cynigion i warchod a gwella ar eu mwyaf effeithiol pan mae pob adran yn y cyngor yn deall arwyddocâd dynodi a gweithio gyda'n gilydd. Felly, awgrymir yn gryf dull gweithredu gyda thîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol fod yn glir y bydd y cynigion i ddatblygu yn cael eu beirniadu mewn perthynas â'u heffaith ar gymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth fel y nodir yn y ddogfen werthuso a rheoli. Bydd cynigion datblygu penodol mewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o dai preswyl, darparu adeilad neu adeiladau y mae'r arwyneb llawr a fydd yn cael ei greu yn sgil y datblygiad yn mesur 100 metr sgwâr neu fwy, angen datganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canolfannau masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reolaeth reoledig a chadarnhaol o newid sy'n annog bywiogrwydd economaidd a chynnwrf cymdeithasol a diwylliannol a chydysnio â phensaernïaeth arbennig yr ardal ac ansawdd hanesyddol. Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal, neu'n tynnu oddi ar yr

elfennau hynny; dylai eu disodli fod yn ysgogiad i ddyluniad dychmygol, o ansawdd dda ac yn gyfle i wella'r ardal.

Un o ddibenion system rheoli hysbysebu yw annog yr arddangosiad o hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymddangosiad yr amgylchedd. Rhesymol yw disgwyl mai dyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol yw talu sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth a fydd yn arwain, yn ymarferol, at safonau mwy manwl pan mae'r awdurdod yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath ai peidio.

6.9 Yn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg wrth ddefnyddio eu grymoedd dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd bod nifer o ardaloedd yn cynnwys safleoedd manwerthu a masnachol yn amrywio o siopau bach i ganolfannau masnachol llewyrchus. Mae hysbysebu yn yr awyr agored yn hanfodol ar gyfer gweithgarwch masnachol. Fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchnogion a thenantiaid safleoedd masnachol i gynnal cyflwr da adeiladau a sicrhau eu bod yn ddeniadol.

6.11 Gall Gweinidogion Cymru bennu nad oes angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi nodi nad yw caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer rhai gweithiau. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys dymchwel adeilad sydd â

chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Golyga hyn na fydd nifer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel deunydd rhan o adeilad yn cael eu hystyried yn waith dymchwel ac ni fydd angen caniatâd ardal gadwraeth i'w gwneud.

6.12 Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth yn gofyn datganiad effaith ar dreftadaeth, a ddylai egluro pam mae'r dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylai cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath gael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf eang â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Yn achosion lle ystyrir bod adeilad yn gwneud mân gyfraniad neu dim cyfraniad o gwbl, fel arfer bydd awdurdod cynllunio lleol angen gwybodaeth lawn ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y safle ar ôl dymchwel. Ni ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer aildddefnyddio'r safle oni bai bod yr ailddatblygiad ei hun yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion eang datblygiad

arfaethedig, megis ei raddfa, maint, a màs, wrth bennu a ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol cyflwyno amod ar roi caniatâd i ddymchwel fel nad yw'n digwydd nes y ceir caniatâd cynllunio llawn a nes bod contract wedi'i lunio ar gyfer cyflawni'r gwaith datblygu.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y grym i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid gwarchod y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn Ardaloedd Cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Yn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.17 Mae gan orfodaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull gweithredu mwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolyddion rheoleiddio, yn hytrach nag ymchwilio pan gyflwynir cwyn ffurfiol. Bydd dull cadarnhaol a gweithredol o orfodi yn helpu i leihau'r nifer o droseddau a sicrhau gwelliannau parhaus yn yr ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol neu fethiant awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad ynghylch caniatâd i ardal gadwraeth. Gellir gwneud apêl dan yr amgylchiadau canlynol: Pan mae awdurdod cynllunio lleol: • Yn gwarchod cais am ganiatâd ardal gadwraeth; • Yn caniatáu cais am ganiatâd ardal gadwraeth gydag amodau; • Yn gwrthod cais i amrywio neu ryddhau amodau sydd ynghlwm â chaniatâd ardal gadwraeth; • Yn gwrthod cais am ganiatâd sy'n ofynnol drwy amod a gyflwynwyd wrth roi caniatâd ardal gadwraeth; neu'n • Methu â phennu cais am ganiatâd cyn pen 8 wythnos o'i ddilysu gan awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Cyflwynir apeliadau i Weinidogion Cymru ar ffurflen cyn pen chwe mis o'r ymgeisydd yn cael hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Managing Conservation Areas in Wales, Cadw, 2017

Managing Conservation Areas in Wales supplements Planning Policy Wales¹ and Technical Advice Note 24: The Historic Environment. Managing Conservation Areas in Wales sets out the policy context and duties for local planning authorities to designate and manage conservation areas. It also identifies key aspects of good practice for their designation and appraisal, including the participation of stakeholders and the development of local policies for positive management and enhancement so that their character and appearance are preserved and enhanced. It should also help local planning authorities to take account of Cadw's Conservation Principles for the Sustainable Management of the Historic Environment in Wales (Conservation Principles) to achieve high-quality sensitive change.

